# Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 25 Mawrth 2003

## Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Atebwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 2, 7 ac 13 yn ôl.

**2.44pm**
**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**Datganiad gan y Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor: cynllun wrth-gefn Clwy'r Traed a'r Genau Llywodraeth Cynulliad Cymru - *GOHIRIWYD***

**2.54pm**
**Pwynt o Drefn**
**Ieuan Wyn Jones** o dan Reol Sefydlog 17.4 ar archwilio unrhyw ddogfennau sydd ym meddiant neu o dan reolaeth y Cynulliad ac sy'n cynnwys deunydd ynglyn ag unrhyw un o drafodion y Cynulliad.

***2.58pm***
***Ni chynhaliwyd dadl ar y cynnig hwn. Cynhaliwyd pleidlais ar unwaith.***
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reolau Sefydlog 23.10, 23.11 a 22.25**
*NDM1424* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reolau Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11:

1. Yn cymeradwyo:
a) Y fersiwn ddrafft o'r **Apple and Pear Research Council (Dissolution) Order 2003**, y gosodwyd copi ohoni yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mawrth 2003; a'r

b) Y Memorandwm esboniadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 18 Mawrth 2003.

2. Yn cymeradwyo:

a) Y fersiwn ddrafft o'r **Horticultural Development Council (Amendment) Order 2003**, y gosodwyd copi ohoni yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mawrth 2003; a'r

b) Memorandwm esboniadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 18 Mawrth 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 38; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 38
**Derbyniwyd y cynnig**

***2.59pm***
***Ni chynhaliwyd dadl ar y cynnig hwn. Cynhaliwyd pleidlais ar unwaith.***
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 22.25**:
*NDM1422* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1.
a. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2003, ac sydd heb nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft **Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2003**;

b. Yn cymeradwyo Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2003.

2.
a. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2003, ac sydd heb nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft **Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol Rhad ac am Ddim) (Credydau Treth Rhagnodedig) (Cymru) 2003;**

b. Yn cymeradwyo Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol Rhad ac am Ddim) (Credydau Treth Rhagnodedig) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2003.

3.
a. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2003, ac sydd heb nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft **Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol) (Gofyniad Rhagnodedig) (Cymru) 2003**

b. Yn cymeradwyo Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol) (Gofyniad Rhagnodedig)

(Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2003.

4.
a. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2003, ac sydd heb nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft **Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) 2003;**

b. Yn cymeradwyo Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2003.

5.
a. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2003, ac sydd heb nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft **Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2003**.

b. Yn cymeradwyo Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 39; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 39
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.00pm**
**Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio**
*NNDM1421* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Archwilio, " Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio: Medi 2001 – Medi 2002 ac Adroddiad Ychwanegol ar y Gweithgarwch hyd at ddiwedd Mawrth 2003", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 31; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 31
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.26pm**
**Dadl ar Ran 2 adolygiad polisi`r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar Adfywio Cymunedol**
*NNDM1420* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, "Adolygiad Polisi

Llywodraeth Leol a Thai ar Adfywio Cymunedol – Meithrin Gallu a Hyfforddiant", a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 11 Mawrth 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 34; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 34
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.14pm**
**Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, 'Ysgol y Dyfodol: Adroddiad Interim'**
*NNDM1419* -Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn nodi adroddiad gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, "Ysgol y Dyfodol: Adroddiad Interim" a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 18 Mawrth 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 33; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 33
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.48pm**
**Cynigion i gymeradwyo'r newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant (Trosglwyddiadau MEG) o dan Reol Sefydlog 19.5**
*i) NDM1417* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 19.5A, yn cytuno â'r newid yn lefel yr adnoddau a ddyrannwyd i'r prif grwp gwariant a sefydlwyd ar gyfer Swyddfa'r Llywydd ar gyfer 2002-2003, 2003-2004 a'r dyraniadau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd yn dilyn hynny, fel y nodwyd ym Mhrif Grwp Gwariant Diwygiedig Swyddfa'r Llywydd ar gyfer 2002-2003 i 2005-2006, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mawrth 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 31; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 31
**Derbyniwyd y cynnig**

*ii) NDM1423 -* Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 19.5, yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2002-03 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Llun 17 Mawrth.

Gosodwyd y tablau canlynol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mawrth:
Mae Tabl 1 yn dangos y newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth gyfredol y Cynulliad rhwng y Prif Grwpiau Gwariant;

Mae Tabl 2 yn dangos sut y caiff yr arian a ddygwyd ymlaen ei rannu fesul Prif Grwp Gwariant; ac
Mae Tabl 3 yn dangos y darpariaethau diwygiedig arfaethedig ar gyfer y Prif Grwpiau Gwariant yn sgil y trosglwyddiadau i Adrannau'r Llywodraeth ac oddi wrthynt.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 24; Ymatal 10; Yn erbyn 0; Cyfanswm 34
**Derbyniwyd y cynnig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.00pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 26 Mawrth 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a Osodwyd ar 24 Mawrth 2003

Memorandwm Cywiriadau - Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD2043

| | |
|---|---|
| | Gorchymyn Siroedd Wedi'u Cadw (Newid Ffiniau) (Cymru) 2003 - LD2044 |
| | Code of Guidance for Local Authorities on Allocation of Accomodation and Homelessness - LD2045 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael. Sylwer bod y ddogfen hon yn 241 tudalen* |